CWM TAF
Gofal a Thrwsio

Rhan o Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25

Gwella Cartrefi, Newid Bywydau



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government



# CYNNWYS


Rhagair y Cadeirydd a’r Prif Swyddog ............ 1

Amdanom Ni ............ 4

Ein Heffaith

Cefnogi Cymunedau Cydnerth ............ 5

Cyflawni â Rhagoriaeth ac Effaith ............ 6

Ein Gwasanaethau a’n Partneriaethau ............ 11

Buddsoddi yn Ein Llywodraethiant, Ein Pobl a’n Systemau ............ 16

Gwarchod Ein Cynaliadwyedd Ariannol ............ 20


# RHAGAIR Y CADEIRYDD A’R PRIF SWYDDOG

## Croeso i Adroddiad Blynyddol 2024-25 Gofal a Thrwsio Cwm Taf.

**Wrth i anghenion pobl yn ein cymunedau lleol fynd yn fwy cymhleth ac amrywiol, cyrhaeddodd y galw am wasanaethau Gofal a Thrwsio Cwm Taf uchafbwynt hanesyddol eleni.**

Cyflawnom 10% yn fwy o waith eleni o gymharu â 2023-24, gyda buddsoddiad gwerth cyfanswm o £1.97 miliwn a’r gost fesul tasg yn £281.79, ar gyfartaledd. Mae’r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â chostau cyflogaeth, yn achosi heriau parhaus o ran cadw a recriwtio staff, ac ar ein cyllid ni.

Eto yn rhyfeddol, cyflawnom y lefelau uchaf o foddhad ymhlith cleientiaid ac effaith gadarnhaol fesuradwy, sylweddol.

Cyflawnwyd hwn trwy ffocws cyson ar y deilliannau i gleientiaid, gyda 76% o’n gwaith yn lleihau risg cwympo gartref ac 82% yn atal y posibilrwydd o arhosiad yn yr ysbyty. Gyda boddhad cleientiaid yn 100%, dywedodd 91% wrthym ein bod wedi gwella ansawdd eu bywyd a dywedodd 90% bod ein hymyriadau wedi gwella’u hannibyniaeth a’u lles. Blwyddyn benigamp yn ein hanes, gyda 2024 yn nodi 45 mlynedd ers dechrau’r asiantaeth Gofal a Thrwsio gyntaf – ni! – yng Nghymru, yma yng Nglynrhedynog.

Rhaid llongyfarch ein timau ymroddedig a’n partneriaid am y cyfraniad arwyddocaol hwn at helpu pobl hŷn lleol i fyw’n dda gartref, wrth i atgyfeiriadau ar gyfer cleientiaid barhau i godi.

Mae ein holl waith yn cynnwys partneriaeth, gan ein bod ni’n gweithio’n uniongyrchol gyda’n cleientiaid i gael y cymorth y mae ei angen arnynt, ac y mae ganddynt hawl iddo, gan ddelio â’r amrywiol ffynonellau cyllido sydd ar gael gan amrywiaeth o bartneriaid. Yr hyn sy’n allweddol i’n llwyddiant, felly, yw ein gallu i gadw a datblygu perthnasoedd newydd a blaengar, gan weithio gyda’n gilydd i helpu pobl i heneiddio’n dda.

Mae’r partneriaethau cadarn hyn a’r ffynonellau cymorth ariannol cadarn yn dod oddi wrth sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg. A ninnau’n Gadeirydd ac yn Brif Swyddog Gofal a Thrwsio Cwm Taf, hoffem ddiolch i’r holl bartneriaid lleol a chenedlaethol hyn, ein staff, a phawb a fu ynghlwm â’n gwaith yn ystod 2024-2025, gan gynnwys y cymorth a gawn gan Ofal a Thrwsio Cymru a Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf.



**Chris Binding**
Cadeirydd



**Nerys Williams**
Prif Swyddog

# AMDANOM NI

**Mae Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn sefydliad nid er elw, yn rhan o Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf ac yn asiantaeth leol ar ran Gofal a Thrwsio Cymru yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr.**

Cawn ein hariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf.

A ninnau'n rhan o Ofal a Thrwsio Cymru, rydym ni yma i hyrwyddo byw'n dda gan bobl hŷn, trwy helpu i sicrhau bod ganddynt gartref diogel sy'n briodol i'w hanghenion.

Rydym ni'n darparu gwasanaeth cymorth a chyngor am ddim i bobl hŷn ac anabl sydd eisiau aros i fyw yn eu cartref ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ein nod yw eu helpu i aros yn eu cartref eu hunain gyda mwy o annibyniaeth, gwres, sicrwydd a diogelwch.

Rydym ni'n gwrando'n astud arnynt ac yn gweithio'n agos gyda nhw i deilwra pecynnau cymorth unigol sydd wedyn yn cael eu darparu gan ein tîm profiadol o swyddogion achos, swyddogion technegol a thasgmyn.

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi ymrwymo i greu diwylliant ac amgylchedd gweithio cefnogol a chynhwysol, i helpu gwneud yn siŵr bod cydweithwyr yn cyflawni eu potensial llawn a chyfrannu at ein llwyddiant, ni waeth beth yw eu nodwedd warchodedig.

## Ein Gwerthoedd

A ninnau'n rhan o Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, adnewyddom ein gwerthoedd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn llywio ein holl ymddygiadau ac yn dangos beth gall ein tîm, ein cleientiaid a'n partneriaid ei ddisgwyl gennym wrth weithio gyda ni:

**Rydym ni'n ymroddedig** ***Rydym ni'n garedig ac yn poeni am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n cleientiaid, ein cymunedau a'n staff.***

**Rydym ni'n dangos parch** ***Credwn y gallwn ond weithio'n dda gyda'n gilydd pan fyddwn yn parchu ein gilydd.***

**Rydym ni'n dangos uniondeb** ***Rydym ni'n gweithio'n galed i ennill ymddiriedaeth trwy fod yn glir, yn onest ac yn gyfrifol am ein gweithredoedd.***



# EIN HEFFAITH

**Gweithiom yn galed yn ystod y flwyddyn nid yn unig i ddarparu ein gwasanaethau ond hefyd i fesur y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud i fywyd pobl a'r effaith rydym ni'n ei chael. Dyma rai o uchafbwyntiau'r pethau wnaethon ni yn 2024–25 i wneud gwahaniaeth i bobl.**

## Cefnogi Cymunedau Cydnerth

Achosodd yr argyfwng costau byw heriau mawr i bobl yn ystod y flwyddyn. Gweithiom gyda chleientiaid i wneud y mwyaf o'u hincwm, gan eu helpu i gael gafael ar £461,000 y flwyddyn o fudd-daliadau a oedd heb eu hawlio, fel y Credyd Pensiwn a'r Lwfans Gweini.

Mynychom 45 o ddigwyddiadau cymunedol ar draws Cwm Taf i ddweud wrth bobl leol am ein gwasanaethau, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd ym Mhontypridd. Hefyd, ymunom â'r orsaf radio leol, GTFM, i esbonio sut gallwn ni helpu a sut i gysylltu â ni.

Ym mis Rhagfyr 2024, aeth ein timau i hwyl yr ŵyl a chodi £560 i'r Gymdeithas Alzheimer ar Ddiwrnod yr Ellyllon, a dosbarthom 30 o focsys anrhegion Nadolig gan gefnogi apêl Bocsys Nadolig Age Cymru.

Dosbarthom 200 o becynnau Gwres y Gaeaf am ddim i rai o'n cleientiaid mwyaf bregus, diolch i Wales & West Utilities. Mae'r bagiau hyn yn cynnwys eitemau i helpu pobl i gadw'n gynnes ac yn gysurus, gan gynnwys hetiau, menig a hosanau, blancedi, mygiau thermol a photeli dŵr poeth.







## Cyflawni â Rhagoriaeth ac Effaith

Er bod y galw am ein gwasanaethau wedi rhagori ar y disgwyliadau, a'r uchaf ar gofnod yn 2024-25, fe wnaethom ddarparu'n rhagorol a chael effaith arwyddocaol trwy gydol y flwyddyn, a fesurom trwy adborth parhaus gan gleientiaid a sefydliadau partner.

Roedd cyflawni â rhagoriaeth i'w weld hefyd wrth i ni gyflawni Achrediad Contractwr Diogel am yr wythfed flwyddyn yn olynol ac yn y canmoliaethau, y sylwadau a'r cwynion a gawsom.

### Darparu gwasanaethau, adborth gan gleientiaid ac effaith:

**9,297** O ATGYFEIRIADAU CLEIENTIAID

**6,981** O DASGAU WEDI'U CWBLHAU +10% ERS 2023-24

**£1.9M** O WAITH WEDI'I GYFLAWNI

**3,904** O YMWELIADAU CARTREF

**76%** O'R GWAITH A GWBLHAWYD WEDI LLEIHAU RISG CWYMPO GARTREF

**3,577** CLEIENT WEDI'U HOLI AM ADBORTH YN SGIL EIN HYMYRIADAU

**100%** WEDI DWEUD WRTHYM EU BOD YN FODLON Â'N GWASANAETHAU

**91%** WEDI DWEUD WRTHYM EIN BOD WEDI GWELLA ANSAWDD EU BYWYD

**19** CWYN CAM 1 WEDI CYRRAEDD - Y CYFAN WEDI'U DATRYS (-32% ERS 2023/24)

**100%** WEDI DWEUD WRTHYM Y BYDDENT YN ARGYMELL EIN GWASANAETHAU I ERAILL

**90%** WEDI DWEUD BOD EIN HYMYRIADAU WEDI GWELLA EU HANNIBYNIAETH A'U LLES

**0** CWYN CAM 2 WEDI CYRRAEDD

**92** O GARDIAU A GALWADAU DIOLCH (+35% ERS 2023/24)

# BETH MAE EIN CLEIENTIAID A'N PARTNERIAID YN EI DDWEUD

*"Diolch i'r tîm gwasanaethau ymarferol am gwblhau'r dasg hon. Rydych chi wedi bod yn hollol anhygoel a diolch i chi am ei datrys mor gyflym."*

**Leanne, Gweithiwr Cymdeithasol**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

*"Rydym ni wrth ein bodd ac mor ddiolchgar am bopeth rydych chi wedi'i wneud i helpu. Yn sicr, rydych chi a'ch tîm yn cyflawni'n union beth sydd ei angen arnom."*

**Cleient a gafodd help gennym i gael budd-daliadau ychwanegol**

*"Diolch am y gwaith cyflym yn gosod y sêff allweddi fel y gallai mam gael ei gofalwyr newydd wythnos yma...roedd e'n gymwynasgar ac yn effeithlon iawn ar y ffôn – ry'n ni'n gwerthfawrogi hynny'n fawr."*

**Merch i gleient**

*"Diolch yn fawr am yr holl help rydych chi wedi'i roi i mi... Rwy' nawr yn cael y Lwfans Gweini, sy'n help mawr iawn."*

**Cleient**

*"Diolch i bawb a oedd yn gysylltiedig â gofalu am fy ngrant. Rwy' mor hapus gyda'r gwaith, yn ystod cyfnod mor anodd. Roedd pawb yn wych!"*

**Cleient**

*"Diolch ENFAWR gan y tîm Trawma ac Orthopaedeg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl am gynorthwyo â phroses ryddhau heriol ddydd Llun. Nid oedd criw'r ambiwlans wedi gallu cael claf gartref yn ddiogel oherwydd problemau mynediad. Camodd Gofal a Thrwsio i'r adwy i ddod o hyd i ateb...heb Chris yn datrys problemau a help gan bawb yn Gofal a Thrwsio, byddai'r claf hwn wedi aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig.*

*"Mae eich gwasanaeth mor amhrisiadwy ar gyfer sicrhau bod cleifion yn cyrraedd gartref yn ddiogel, rydyn ni wir yn gwerthfawrogi gwaith caled ac ymroddiad pawb!*

*"Gwaith PENIGAMP!"*

**Tracey, Therapydd Galwedigaethol Trawma ac Orthopaedeg**
**Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful**

*"Ymateb cyflym a gwasanaeth mor rhagorol... mor garedig ac ystyriol tuag at fy nhad (sydd â dementia) wrth siarad ag ef ac esbonio popeth.*

*"Roedd e mor hyfryd a gofalgar tuag at fy nhad ac roedd y gwaith a wnaeth e'n wych."*

**Teulu cleient**

*"Fel holl aelodau'r tîm Gofal a Thrwsio rydyn ni wedi ymwneud â nhw, roedd e'n dda iawn, yn effeithlon ac yn gwrtais iawn. Roedd yr ymateb cyflym i'r cais am addasiadau a'r modd o'u cyflawni wedi creu argraff dda arnom ni.*

*"Does dim ond canmoliaeth gen i a fy ngwraig tuag at y system Gofal a Thrwsio, sydd wedi gwneud ein bywyd yn haws o lawer ac wedi gwella ansawdd ein bywyd."*

**Cleient**

# EIN CLEIENTIAID

**Does dim byd yn gwireddu'r gwahaniaeth y gallwn ni ei wneud na hanes go iawn am berson go iawn – a sut gallwn ni ddod â chyllid gan ein partneriaid at ei gilydd i wneud i hynny ddigwydd...**

Cawsom atgyfeiriad gan un o'n Therapyddion Galwedigaethol partner sy'n gweithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg fel rhan o wasanaeth yr Ysbyty i'r Cartref rydym ni'n ei redeg gyda nhw. Ariennir hyn gan elusennau'r GIG mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Ymwelom â chartref Mrs D a chwblhau asesiad Cartref Iach i weld beth allai gael ei wneud i symud Mrs D o'r ysbyty ac yn ôl gartref yn ddiogel. O ganlyniad, cwblhaom y canlynol:

- gosod sêff allweddi trwy ein Cynllun Addasiadau Ymateb Brys a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- gosod canllaw cydio wrth y drws ffrynt ac adeiladu gris ychwanegol i atal cwympiadau
- diogelu ffenestri trwy ein Cynllun Tasgmyn, a ariennir gan uned tai sector preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- ychwanegu tŷ bach i lawr y grisiau a newid ffrâm y drws ffrynt am ffrâm trothwy gwastad upvc er mwyn gallu symud yn ddiogelach i'r ystafell wydr ac i'r ardd, y ddau ohonynt wedi'u hariannu gan Mrs D trwy ein gwasanaeth gwaith preifat
- asesiad gan Aseswr Dibynadwy ac atgyfeirio at dîm gwasanaethau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am asesiad ar gyfer lifft grisiau trwy Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl
- gwiriad llawn i sicrhau bod Mrs D ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth, bod ganddi bob budd-dal priodol a bod larymau mwg ei chartref yn gweithio.

Roedd Mrs D a'i merch yn ddiolchgar am y cymorth a'r cyngor, yn ogystal â'r gwaith a gwblhawyd i gefnogi rhyddhau Mrs D o'r ysbyty yn ddiogel, gan ei fod wedi *"dileu straen a phryder tasg mor fawr"*. Rydym ni'n falch o ddatgan bod Mrs D yn dweud ei bod wedi adennill ei hyder a'i hannibyniaeth, gan gynnwys pan mae hi'n gadael y tŷ, oherwydd bod ei risg cwympo wrth y drws ffrynt wedi cael ei ostwng.



*"Roedd fy mywyd cyn i Gofal a Thrwsio alw heibio yn dipyn o frwydr."*

Dewch i gyfarfod ag Anne o Bontypridd, sy'n 81 oed, yn y ffilm fer hon a wnaed mewn partneriaeth â Gwasanaeth Iechyd a Lles Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Mae hi wrth ei bodd â'i chartref ac nid yw hi'n symud i unman! Ymwelodd Delyth o Ofal a Thrwsio Cwm Taf ag Anne i weld sut y gallem ni helpu. Ar ôl ychydig o newidiadau syml, mae Anne nawr yn fwy annibynnol a hyderus yn y cartref mae hi'n ei garu.

**Gwyliwch stori Anne yma:**



# EIN GWASANAETHAU A'N PARTNERIAETHAU

**Mae partneriaeth yn ganolog i beth rydym ni'n ei wneud, gan weithio mewn ffordd gysylltiedig ag asiantaethau ac awdurdodau cymdeithasol a gofal iechyd eraill i ddod â gwasanaethau did-dor i'n cleientiaid. Fel mater o drefn, mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'n cynghorau lleol, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â sefydliadau trydydd sector, ac rydym ni hefyd yn gweithio gyda'r sector preifat lle y maen nhw am gefnogi ein cleientiaid, hefyd.**

## Ymgyrch Hynach nid Oerach, a gefnogir gan Wales & West Utilities

Ym mis Ebrill 2024, lansiom ein gwasanaeth Hynach nid Oerach mewn partneriaeth â Wales & West Utilities. Mae'r gwasanaeth hwn yn dechrau gyda'n Swyddog Ynni'r Cartref yn ymweld â chleientiaid yn eu cartref eu hunain i ddatblygu pecyn teilwredig, cynhwysfawr o fesurau effeithlonrwydd ynni a gwelliannau i'r cartref, bob un ohonynt â'r nod o alluogi pobl hŷn i gadw'n gynnes, yn fforddiadwy. Yn 2024-25, darparom y gwasanaeth hwn i 355 o bobl hŷn, gan fanteisio ar gyllid o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, ECO4 a ffrydiau cyllid lleol eraill.




## Gwasanaeth Cymorth Dementia a gefnogir gan y Grant Cymorth Tai gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful




Parhaodd ein cymorth dementia llwyddiannus trwy gydol 2024-25. Fe wnaethom:

- gefnogi 215 o gleientiaid sy'n byw gyda dementia a'u teulu/gofalwyr yn uniongyrchol i fyw gartref
- cwblhau 172 o dasgau yng nghartref cleientiaid, gwerth £41,937.09 (cost o £243.82, ar gyfartaledd)
- chwarae ein rhan mewn codi ymwybyddiaeth o ddementia fel partner allweddol yn Troi Pontypridd yn Las fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia.

## Gwasanaeth Ymdopi'n Well a gefnogir gan Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac a gyflwynir mewn partneriaeth uniongyrchol â'r RNIB, yr RNID, y Gymdeithas Alzheimer a'r Gymdeithas Strôc

Daw nerth y gwasanaeth Ymdopi'n Well, sy'n cael ei gyd-gynhyrchu, o 5 elusen fawr yng Nghymru sy'n dod at ei gilydd i gyfuno ein galluoedd unigryw er budd ein cleientiaid ein gilydd.

Er enghraifft, mae gan ein Swyddog Achosion Ymdopi'n Well ddealltwriaeth well erbyn hyn o'r cymorth ychwanegol y gall ein partneriaid ei gynnig i'n cleientiaid. Mae'n ategu ein Gwasanaeth Cymorth Dementia, lle mae ein timau perthnasol yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ein cleientiaid yn cael y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen. Fe wnaeth datblygiadau yn ystod y flwyddyn gynnwys darparu technoleg gynorthwyol gartref i gleientiaid i wella'u hannibyniaeth.

Yn 2024-25, darparom gymorth uniongyrchol i 243 o gleientiaid, gyda 211 ohonynt yn cael gwiriad Cartref Iach ar eu cartref.

## Gwasanaeth o'r Ysbyty i'r Cartref a gefnogir gan Gwm Taf Morgannwg ac elusennau'r GIG

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth uniongyrchol â BIP Cwm Taf Morgannwg, gyda chymorth elusennau'r GIG yn ategu hynny. Mae ein staff wedi'u lleoli yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful, Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant, Ysbyty Cwm Cynon yn Aberpennar ac Ysbyty Cwm Rhondda yn Nhonypandy. Fel hyn, maen nhw yn y fan a'r lle i sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl i gartref diogel a chynnes, sy'n lleihau'r risg go iawn y cânt eu haildderbyn i'r ysbyty, trwy gymorth ac addasiadau.

Yn 2024-25, cawsom 1,115 o atgyfeiriadau cleifion gan y pedwar ysbyty. Darparom 800 o addasiadau gwerth £178,466, am gost o £223.08, ar gyfartaledd.


Cwm Taf Care & Repair

Hospital to a Healthier Home

Good Practice Guide

Introduction

Increased admissions, and delayed transfers of care of older patients can be a significant feature of winter pressures in our hospitals.

Welsh Government's National Programme for Unscheduled Care, through it's winter delivery budget, funded this service in 2019 as a pilot. As a result of its success funding for its continuation was transferred to Cwm Taf Morganwg University Health Board in 2022.

In 2024, Cwm Taf Care & Repair in partnership with the Health Board was successful with additional funding from NHS charities to provide additional capacity to meet increasing demands.

In 2022, the service that is delivered across Wales was evaluated by Care & Repair Cymru. Report available: https://careandrepair.org.uk/new-report-10000-patients-helped-through-hospital-to-a-healthier-home/

The Evaluation Report provides comprehensive information on the experiences of patients, hospitals staff, and Care & Repair staff, and outlines the key learning points. This short guide highlights some of the good practice identified so far, and aims to help Hospital Managers, clinical staff, and Care & Repair managers and staff make the best use of the resources at their disposal through Hospital to a Healthier Home.

Mae ein data cenedlaethol yn dangos bod gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn lleihau:

- nifer y derbyniadau i ysbyty oherwydd cwympiadau 17% ymhlith pobl 60-95 oed
- y tebygolrwydd o gwympo 13% ymhlith pobl 60-95 oed
- aildderbyn pobl i'r ysbyty 7% ar gyfer pobl 60+ oed
- hyd arhosiad claf yn yr ysbyty gan chwe diwrnod, ar gyfartaledd.





## Cronfa Tai â Gofal

Derbyniom grant Tai â Gofal gwerth £100,000, sy'n hanfodol i ni allu darparu mân waith addasu i bobl hŷn, a'r addasiadau sy'n deillio o'n gwasanaethau Asesydd Dibynadwy a rhyddhau o'r ysbyty.

Yn 2024-25:

- galluogwyd 495 o gleientiaid i fyw gartref yn annibynnol
- siaradom â 326 o'r rhain, gyda 99% ohonynt yn cadarnhau ein bod wedi gwella ansawdd eu bywyd.

## Y Grid Cenedlaethol a Wales & West Utilities

Ychwanegom 713 o gleientiaid at y cofrestri gwasanaethau â blaenoriaeth fel eu bod yn cael cymorth â blaenoriaeth os byddant yn colli gwasanaethau gartref.

## Gwasanaeth Iechyd a Lles a gefnogir gan Gyllid Integredig Rhanbarthol

Eto, cefnogom feddygon teulu ar draws ein hardal gydag ymyriadau yng nghartrefi eu cleifion. Mae'r model gwasanaeth unigryw hwn yn cynnwys tîm o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol sy'n cydweithio i sicrhau bod y cleient yn cael yr holl gymorth arbenigol y mae arnynt ei angen.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom:

- gael 607 o atgyfeiriadau cleifion
- cwblhau 530 darn o waith gwerth £157,428
- siarad â 291 o gleifion, gyda 100% ohonynt yn dweud y byddent yn argymell ein gwasanaethau.

## Grantiau Addasiadau Ffisegol a Gwasanaeth yr Asesydd Dibynadwy, a gefnogir gan Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf (CTCHG)

Datblygom y bartneriaeth hon gyda CTCHG i ddarparu eu Grantiau Addasiadau Ffisegol ymhellach yn 2024 trwy ddarparu cymorth uniongyrchol gan ein Haseswyr Dibynadwy i gwblhau asesiadau ffisegol ar gyfer cymhorthion ac addasiadau yng nghartref tenantiaid.

Yn 2024-25, cwblhaom:

- 33 o Grantiau Addasiadau Ffisegol gwerth £257,000
- 64 mân ddarn o waith addasu gwerth £9,175.

## Mân ddarnau o waith addasu a gefnogir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful a BIP Cwm Taf Morgannwg

Mae'r gwasanaethau hyn yn ein galluogi ni i gwblhau gwaith gartref i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty i'w cartref neu i'w hatal rhag cael eu derbyn i ysbyty.

Galluogodd cymorth ariannol parhaus gan Merthyr Valleys Homes, Trivallis, Grŵp Beacon Cymru a Chymdeithas Cartrefi Cymunedol Cynon Taf i ni gwblhau gwaith ar gyfer 846 o'u tenantiaid. Gyda chyllid cyfalaf uniongyrchol gan ein hawdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol, cyflawnom fân ddarnau o waith i berchnogion tai.

Cefnogir y gwaith hwn hefyd gan ein Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Cost ymyrraeth ar gyfartaledd yn 2024-25 oedd £172.01 ac fe wnaeth 76% o'r gwaith a gwblhawyd gynorthwyo ag atal cwympiadau yn y cartref.

## Trwsio Tai - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae ein partneriaeth ag Uned Tai'r Sector Preifat yn ariannu Grantiau Trwsio Tai ar gyfer gwaith trwsio a fydd yn gwella iechyd a lles perchnogion tai lleol sydd dros 60 oed.

Caiff y gwasanaethau hyn eu cefnogi hefyd gan Grant Tasgmon lefel is sy'n cyflawni swyddogaeth atal cynnar ac sy'n atal dadfeilio difrifol, fel lleithder rhag gwaethygu.

Yn 2024-25:

- cwblhaom 195 darn o waith gwerth £193,297
- dywedodd 90% o'r 3,577 o gleientiaid y siaradom â nhw ein bod wedi gwella'u hannibyniaeth a'u lles.

## Tynhau Diogelwch y Targed - Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

Darparwn wasanaeth sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig i fyw'n ddiogel yn eu cymuned ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol, trwy osod cloeon drysau, cloeon ffenestri, cadwyni drysau a chloch drws fideo:

- cefnogom 503 o gleientiaid yn 2024-25
- dywedodd 97% o'r cleientiaid a holwyd eu bod nawr yn teimlo'n fwy diogel.








## Gwasanaethau Gwaith Preifat

Pan nad yw pobl hŷn yn gymwys i gael cyllid grant, rydym yn cynnig gwasanaeth hunandalu sy'n cynnig gwerth am arian. Yn 2024-25, cwblhaom 167 darn o waith hunandalu gwerth £218,537, sef cynnydd o +271% o gymharu â'r flwyddyn gynt.

## Gwella'r Nifer sy'n Hawlio'r Credyd Pensiwn yng Nghwm Taf Morgannwg

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU yn 2024 i leihau'r nifer sy'n gymwys am Daliadau Tanwydd y Gaeaf yng Nghymru a Lloegr, roeddem ymhlith 17 o sefydliadau yng Nghymru a ddaeth at ein gilydd i wella'r nifer sy'n cael credyd pensiwn yn ardal Cwm Taf Morgannwg (CTM). Gyda'n gilydd, fe wnaethom:

- nodi 689 o gleifion â chyflyrau iechyd resbiradol
- cwblhau 6,768 o gysylltiadau uniongyrchol
- asesu a chefnogi 1,890 o gleientiaid
- sicrhau cadarnhad o gynnydd mewn incwm gwerth cyfanswm o £1,655,551.83
- rhagweld enillion pellach o ran incwm blynyddol o £961,103.19 o geisiadau sy'n aros.

## Edafedd Aur - Gwella Gofal Dementia

Prosiect Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yw hwn i wella gweithio mewn partneriaeth a byddwn yn cydweithio i amlygu ffyrdd o wella gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda dementia.

## Cynghrair Tai Iach

Partneriaeth allweddol rhwng BIP Cwm Taf Morgannwg a darparwyr tai lle'r ydym yn llunio cynlluniau gweithio ar y cyd sy'n cysylltu gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau tai.

# BUDDSODDI YN EIN LLYWODRAETHIANT, EIN POBL A'N SYSTEMAU



**Rydym ni'n darparu cyfleoedd i'n pobl dyfu, gan fireinio sgiliau presennol a meithrin sgiliau newydd sy'n cyfrannu at eu datblygiad personol a'u datblygiad proffesiynol, gan gefnogi eu lles hefyd. Yn ogystal, rydym ni'n buddsoddi mewn systemau sy'n gwella'n darpariaeth gwasanaethau.**

Eleni:

- cwblhaodd ein staff 47 o gyrsiau hyfforddiant
- darparom gyflogaeth newydd i 7 o bobl leol
- buddsoddom mewn system rheoli achosion newydd a'i rhoi ar waith fel rhan o gytundeb Gofal a Thrwsio Cymru gyfan
- lansiom Grŵp Iechyd Menywod a Grŵp Iechyd Dynion, gan roi'r lle a'r cyfle i staff siarad â chydweithwyr am unrhyw broblemau maen nhw'n eu cael, a dod â nhw atom ni fel cyflogwr fel y gallwn drafod y ffordd orau o'u cefnogi
- darparom Iechi i'n staff sy'n gweithio gyda chleientiaid er mwyn iddynt weithio'n fwy effeithlon, yn uniongyrchol o gartref ein cleientiaid.



Derbyniodd ein Rheolwr Gweithrediadol, Julia, radd am achrediadau mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.




Derbyniodd Jolene, ein Rheolwr Gwasanaethau Ymarferol, achrediad lefel uwch mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

## Ein Llywodraethiant

Roedd gennym ffocws penodol ar ein cofrestr risg eleni, gan weithio gyda'n harchwilwyr, Barcud, a chynnwys gweithdy archwaeth risg i aelodau'r Bwrdd.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom hefyd gwblhau adolygiad llawn o aelodaeth Bwrdd Gofal a Thrwsio Cwm Taf. Fe wnaeth hyn gynnwys adolygiad sgiliau, a fydd yn llywio ein hymgyrch recriwtio aelodau newydd yn 2025-2026 yn lle aelodau y mae eu tymor wedi dod i ben.

Treuliodd aelodau'r Bwrdd amser gyda staff yn ymweld â chleientiaid i gael profiad uniongyrchol o sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu o ddydd i ddydd. Hefyd, ymunont â diwrnod i ffwrdd y staff ym Mehefin 2024 i adolygu cynnydd yn erbyn ein cynllun corfforaethol presennol a pharatoi ar gyfer ein cynllun tair blynedd newydd a fydd ar waith o Ebrill 2026 ymlaen.

Cafodd ein Cadeirydd ei arfarnu gan ymgynghorydd allanol, gan ei baratoi i arfarnu aelodau eraill o'r Bwrdd yn ystod 2025-2026, ac archwiliom yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb cydnabyddiaeth gydag Undeb y GMB.

Gan ein bod yn rhan o Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, fe wnaeth Bwrdd y Grŵp gynnal sesiynau hyfforddiant i aelodau bwrdd Gofal a Thrwsio Cwm Taf ar Iechyd a Diogelwch a Gwrth-hiliaeth, a dechreuont baratoadau ar gyfer adolygiad llywodraethiant llawn a gynhelir yn 2025-2026. Hefyd, mae Bwrdd y Grŵp wedi rhoi ei ganiatâd i ni archwilio dod yn elusen gofrestredig llawn, fel yr amlinellir yn ein cynllun corfforaethol, y byddwn yn dechrau arno yn 2025-26.

# AELODAU EIN BWRDD



**Chris Binding**
Cadeirydd



**Richard Tallamy**
Is-gadeirydd



**Karen Cherrett**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**Brendan D'Cruz**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**Ceri Higgins**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**David Lewis**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**Julie McCarthy**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**Bill Smith**
Aelod Bwrdd



**Barry Stephens**
Aelod Bwrdd Annibynnol



**Rebecca Thomas**
Aelod Bwrdd Annibynnol

## Arsyllwyr

**Lauren Edwards**
Arsyllydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**Anthony Kibble**
Arsyllydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Sonia Lloyd Williams**
Arsyllydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE RHONDDA CYNON TAF TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil County Borough Council



# EIN BWRDD - GWYBODAETH AM GYDRADDOLDEB

## OEDRAN

30-44: 10%
45-64: 50%
65+: 40%

## RHYWEDD

40% Benywaidd
60% Gwrywaidd

## CYFEIRIADEDD RHYWIOL

Lesbiad/ Menyw Hoyw: 10%
Dyn Hoyw: 10%
Deurywiol: 10%
Heterorywiol: 60%
Mae'n well ganddynt beidio â dweud: 10%

## ANABLEDD

Oes 60%
Nac oes 30%
Mae'n well ganddynt beidio â dweud 10%

## TRAS ETHNIG

Gwyn 90%
Asiaidd 10%

## CYMRAEG (Siarad)

50% Dim Sgiliau
20% Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg
20% Yn gallu cymryd rhan mewn rhai sgyrsiau'n gysylltiedig â'r bwrdd
10% Rhugl

## CYMRAEG (Darllen)


50% Dim Sgiliau
20% Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol a'u deall
20% Yn gallu darllen rhywfaint o ddeunydd arferol yn gysylltiedig â gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur
10% Yn gallu darllen y rhan fwyaf o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â gwaith


# GWARCHOD EIN CYNALIADWYEDD ARIANNOL

## Perfformiad Ariannol 2024-25

Eto, adroddodd Gofal a Thrwsio Cwm Taf sefyllfa ariannol gadarn ar gyfer 2024–25, gyda gwarged cyn addasiad pensiwn o £81.6 mil.

Roedd cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid lleol allweddol eraill, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn hanfodol o hyd wrth ddarparu gwasanaethau sy'n galluogi pobl leol i fyw'n dda, yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref eu hunain. Hefyd, fe wnaethant hwyluso darparu cymhorthion ac addasiadau i gartrefi tenantiaid Cynon Taf trwy Grant Addasiadau Ffisegol o £265 mil.




| INCWM | 2025 £'000 | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | £988,683 | 36% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £425,773 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | £152,184 | 6% |
| Incwm Ffioedd | £6,280 | 0.2% |
| Tasgmyn | £452,098 | 17% |
| Arall | £654,277 | 24% |
| Llog | £1,320 | 0.05% |
| Enillion Pensiwn | £46,000 | 2% |
| **Cyfanswm** | **£2,726,615** | |

| GWARIANT | £'000 | |
|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | £1,012,722 | 39% |
| Costau Cyflogau | £1,230,607 | 47% |
| Costau Staff Eraill | £105,943 | 4% |
| Costau Swyddfa | £169,849 | 7% |
| Costau Eraill | £79,821 | 3% |
| Addasiad Colled Pensiwn | – | – |
| **Cyfanswm** | **£2,598,942** | |

| **Ein Hasedau a Rhwymedigaethau** | **2025** |
|---|---|
| Asedau | £1,311,161 |
| Rhwymedigaethau | £390,989 |
| Cyfalaf Cyfranddaliadau a Chronfeydd wrth Gefn | £920,172 |


Diolchwn yn ddiffuant i **Matt Appleby** ac **Annabel Lloyd** am eu help i lunio'r adroddiad hwn.

CWM TAF
Gofal a Thrwsio

**Gofal a Thrwsio Cwm Taf**
38-39 Duffryn Street,
Glynrhedynog, CF43 4ER

01443 755696

enquiries@cwmtafcr.org.uk

Cwm Taf Care & Repair

Cwm Taf Care & Repair

careandrepair.org.uk/agencies/care-repair-cwm-taf

Diolch i'n partneriaid cefnogol: